

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cyfarwyddwr Portffolio

uchelgaisgogledd.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Swydd Ddisgrifiad | 4 |
| Manylion Person | 6 |
| Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol | 9 |
| Y Cyflogwr | 10 |
| Ein Gwerthoedd | 11 |
| Amserlen a'r Broses Recriwtio | 12 |
| Buddion | 13 |


Am fwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â:




Alwen Williams
Prif Weithredwr
alwenwilliams@uchelgaisgogledd.cymru

Annwyl Ymgeisydd,

Rydym yn falch iawn eich bod yn ystyried ymuno â'r tîm yng Nghyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy'n falch o fod yn rhan o ddatblygu strategol, trafnidiaeth a datblygu economi Gogledd Cymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth gref, sy'n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni gweledigaeth yn y dyfodol ar gyfer ffyniant economaidd. Mae gennym dîm sefydledig o unigolion proffesiynol ac ymroddedig sydd â'r dasg o yrru ein gweledigaeth ymlaen, ac mae angen Cyfarwyddwr Portffolio arnom nawr i ymuno â'r tîm hwnnw a gyrru ein huchelgeisiau ymlaen.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm, ac rydym wedi datblygu set o werthoedd sy'n sail i sut rydym yn gweithio a'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn ymfalchïo mewn gwneud yr hyn a rydym yn ei ddweud, ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwych i ogledd Cymru. Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n ystyried gwneud cais am y swydd hon i ymuno â ni ar y daith hon.



**Cyng. Mark Pritchard**
**Cadeirydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**




**Cyng. Jason McLellan**
**Is-Gadeirydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

# Swydd Ddisgrifiad

## Pwrpas y swydd

- Darparu arweiniad a chyfeiriad ar lefel uwch i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn unol â gweledigaeth hirdymor y rhanbarth ar gyfer Lles Economaidd.
- Gyrru a hyrwyddo cydweithio ar draws chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, addysg bellach ac uwch, y sector preifat, ynghyd â Llywodraethau Cymru a'r DU i wneud y mwyaf o'r effaith economaidd a chymdeithasol.
- Arwain y gwaith o gynllunio rheoli a chyflawni portffolio'r Cynllun Twf, gan sicrhau gwerth am arian a chyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Hyrwyddo twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy drwy arloesi, datblygu sgiliau, creu swyddi, buddsoddiad sector preifat a'r trawsnewid i economi carbon-isel.
- Datblygu a chynnal perthnasau gwaith cadarn gyda rhanddeiliaid rhanbarthol, cenedlaethol a'r DU, gan gefnogi'r Prif Weithredwr wrth ddylanwadu ar bolisi, denu buddsoddiad, ynghyd â chryfhau safle economaidd Gogledd Cymru.
- Sicrhau safonau uchel o lywodraethu, tryloywder ac atebolrwydd ym mhob agwedd o gyflawni'r portffolio.
- Gweithredu fel uwch gynrychiolydd y sefydliad, gan hyrwyddo cyfleoedd a llwyddiannau'r rhanbarth i bartneriaid, buddsoddwyr a chymunedau.



| | |
|---|---|
| Cyflog | £84,480 - £93,163 |
| Adrodd i | Prif Weithredwr |
| Lleoliad | Lleoliad y swyddfa ar gyfer y swydd hon fydd Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, ond bydd gweithio gartref a gwaith maes/lleol yn ofynion ar gyfer y rôl. Mae gweithio ystwyth yn nodwedd allweddol ac yn ddisgwyliad o'r rôl hon. |


# Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

**Arweinyddiaeth a Gweledigaeth Strategol**

- Bod yn atebol i Is-bwyllgor Lles Economaidd Gogledd Cymru i ddatblygu a chyflawni ei Weledigaeth ar gyfer Lles Economaidd, gan roi cyngor a chyfeiriad strategol er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i gyflawni twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol ar draws y rhanbarth.
- Darparu arweiniad ac argymhellion arbenigol i'r Is-bwyllgor ar y strategaethau a'r systemau sy'n angenrheidiol i greu twf a ffyniant, gan sicrhau bod cyflogaeth a sgiliau, trafnidiaeth, a chynllunio defnydd tir yn cael eu hintegreiddio fel rhan ehangach o swyddogaeth Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Adnabod a mynd ar drywydd cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a denu buddsoddiad allanol, gan hyrwyddo anghenion a photensial Gogledd Cymru ar lwyfan rhanbarthol a chenedlaethol.
- Hyrwyddo dull gweithredu cyd-gysylltiedig a chydweithredol ymhlith partneriaid allweddol yn y rhanbarth i fynd i'r afael â materion economaidd strategol a gwneud y gorau o unrhyw gyfleoedd twf.
- Cynnal perthynas gadarn a chefnogol gyda Pherchennog Cyfrifol (SRO) a Phrif Weithredwr Uchelgais gogledd Cymru, gan dynnu sylw at risgiau a materion yn briodol.

**Cyflawni'r Rhaglen a'r Portffolio**

- Arwain a chydlynu'r gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan sicrhau bod yr holl rhaglenni a phrosiectau yn cael eu cyflawni'n effeithiol gan y partneriaid perthnasol, wedi eu cefnogi gan gynllun rhaglen cynhwysfawr gydag adnoddau, trefniadau rheoli prosiect cadarn a monitro perfformiad clir.
- Bod yn gyfrifol am berfformiad, rheolaeth risgiau, ac allbynnau rhaglenni a Phrosiectau'r Cynllun Twf, ynghyd â mentrau ehangach sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth a'r Weledigaeth Corfforaethol.
- Adolygu a threfnu dadansoddiadau demograffig ac economaidd gan bartneriaid a'r sector busnes, er mwyn cyfrannu at gynllunio a blaenoriaethu'r portffolio.
- Datblygu a rheoli'r gyllideb a phortffolio'r Cynllun Twf, mewn partneriaeth â phartneriaid busnes Cyllid, i'w gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor - gan sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- Sicrhau bod materion yn cael eu codi'n briodol i'r Uwch Berchennog Cyfrifol a'r Prif Weithredwr, gan rannu'r ddealltwriaeth o risgiau a pherfformiad.



**Llywodraethu, Atebolrwydd a Chydymffurfio**

- Cydlynu'r broses o wneud penderfyniadau drwy'r cynghorau partner ac asiantaethau eraill lle nad yw penderfyniadau yn llwyr o fewn cylch gwaith yr Is-bwyllgor.
- Sicrhau bod materion o fewn cylch gwaith yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cael eu dwyn ymlaen mewn da bryd i wneud penderfyniadau, gydag adroddiadau perfformiad cynhwysfawr, cywir, o ansawdd uchel, ynghyd ag argymhellion.
- Arwain y gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf drwy'r Swyddfa Rheoli Portffolio, sicrhau bod y dull gweithredu yn effeithlon ac yn unol â'r dull llywodraethu y cytunwyd arno, ac y defnyddir adnoddau yn effeithiol i ddiwallu blaenoriaethau'r portffolio.
- Sicrhau bod partneriaid cyflawni a'r ffrydiau gwaith a ddosberthir yn derbyn adnoddau digonol a'u bod yn cael eu dal i gyfrif wrth gyflawni i'r amcanion, amserlenni, a'r cyllidebau a'r deilliannau y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod mesurau rheoli cadarn ar waith ar gyfer rheoli risgiau, gwireddu'r buddion, datrys materion a rheoli newidiadau ar draws rhaglen y Cynllun Twf.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda swyddogion statudol (Adran 151 a Swyddog Monitro) i sicrhau bod holl weithgareddau'r portffolio yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau ariannol, cyfreithiol a llywodraethu, ac yn unol â Chyfansoddiad a pholisïau cysylltiedig Uchelgais Gogledd Cymru.

**Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid a Phartneriaid**

- Adeiladu a chynnal perthnasoedd cryf a strategol gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, Awdurdodau Lleol cyfagos, Awdurdodau Cyfunol, a rhanddeiliaid eraill rhanbarthol a chenedlaethol.
- Gweithredu fel yr uwch bwynt cyswllt ar gyfer rhanddeiliaid allanol sy'n ymwneud â'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd, gan sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'u cydlynu.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol Rhanbarthol i adnabod cyfleoedd ar gyfer twf, arloesi a buddsoddi - gan sicrhau bod eu cyngor yn derbyn ystyriaeth wrth i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniadau.
- Arwain ar ddull o ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n gynhwysol ac yn rhagweithiol ar draws awdurdodau lleol, asiantaethau partner, busnesau a chymunedau.
- Sicrhau bod gan yr Is-bwyllgor strategaeth gyfathrebu sy'n glir ac yn effeithiol, sy'n hyrwyddo'i weledigaeth, blaenoriaethau a llwyddiannau i'r holl ran-ddeiliaid.

**Arwain Pobl ac Adnoddau**

- Darparu arweiniad clir a gweledol sy'n cefnogi datblygiad diwylliant tîm o berfformiad uchel a chymhelliant.
- Arwain a gweithredu fel model rôl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau Uchelgais Gogledd Cymru, gan feithrin diwylliant o gydweithio, onestrwydd a rhagoriaeth.
- Cefnogi a datblygu staff drwy rheolaeth llinell a matrics effeithiol, a chyfrannu at arweinyddiaeth ehangach y sefydliad.

**Dyletswyddau Ychwanegol**

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â lefel awdurdod y swydd i gefnogi'r Prif Weithredwr a'r tîm ehangach wrth gyflawni blaenoriaethau sefydliadol a rhanbarthol.



# Manylion Person

Allwedd Dull asesu
G - Ffurflen Gais
A - Canolfan Asesu
C - Cyfweliad

| Meini Prawf | Dull asesu |
| --- | --- |
| **Addysg / Cymwysterau Proffesiynol** | |
| • Addysg i lefel gradd neu gyfatebol mewn maes perthnasol. | G |
| • Tystiolaeth o ddatblygiad personol a rheolaethol parhaus perthnasol. | G |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | |
| • Cofnod wedi ei brofi o arweinyddiaeth ar lefel uchel wrth gyflawni portffolios, rhaglenni neu fentrau datblygu economaidd cymhleth, yn ddelfrydol mewn amgylchedd gyda nifer o rhanddeiliaid neu sector cyhoeddus. | G,C,A |
| • Gwybodaeth gadarn am ddatblygu economaidd, twf rhanbarthol a pholisi adfywio yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys dealltwriaeth o gyllid y llywodraeth a chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF mewn perthynas â Gwell Achosion Busnes. | G,C |
| • Profiad helaeth o weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, addysg uwch/bellach, y sector preifat, a'r llywodraeth, gyda thystiolaeth o adeiladu perthnasau effeithiol a chydweithredol. | G,C,A |
| • Arddangos y gallu i drosi gweledigaeth strategol i weithrediad, gydag allbynnau mesuradwy, gwerth am arian a buddion cynaliadwy. | G,C,A |
| • Ymwybyddiaeth wleidyddol a sgiliau rheoli rhanddeiliaid gwych, gyda'r gallu i ddylanwadu a negodi ar draws gwahanol ddiddordebau a lefelau uchel. | G,C,A |
| • Gallu wedi'i brofi ym maes rheoli rhaglenni, gan gynnwys risgiau, perfformiad, rheolaeth ariannol a llywodraethu. | G,C,A |
| • Sgiliau dadansoddi cadarn, gyda'r gallu i ddehongli data economaidd, ariannol a demograffig er mwyn cefnogi proses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. | G,C,A |
| • Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno da, gyda'r gallu i ysbrydoli hyder a hyrwyddo gweledigaeth Uchelgais Gogledd Cymru i gynulleidfaoedd amrywiol. | G,C,A |
| • Sgiliau wedi'u profi ym maes arwain a rheoli pobl, gyda phrofiad o ddatblygu timau sy'n perfformio i lefel uchel ac wedi'u cymell. | G,C,A |
| • Ymrwymiad i'r safonau uchaf o wasanaeth cyhoeddus a llywodraethu, gan gynnwys glynu at Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth). | G,C,A |
| **Addysg / Cymwysterau Proffesiynol** | |
| • Gwrando a Siarad - yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. | G,C |
| • Darllen a Deall - yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd. | G,C |
| • Ysgrifennu - yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio'r iaith a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darllenydd. | G,C |

## Ymddygiadau craidd i bob rôl

**Arweinyddiaeth**
Rydym oll yn arwain drwy esiampl ac rydym i gyd yn arweinwyr yn ein meysydd ein hunain.

**Cyfrifoldeb**
Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith, ein perfformiad a'n datblygiad.

**Parch**
Rydym yn parchu ein cydweithwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ac yn arddangos hyn drwy ein gwaith ac yn y ffordd yr ydym yn adeiladu perthnasoedd effeithiol.

**Disgwylir i ddeilydd y swydd arddangos ymddygiad moesegol a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyson ag Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.**

## Cyfrifoldebau Arweinyddiaeth Craidd

- Cyfrifoldeb ar y cyd fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth i osod strategaeth, cyflawni a rheoli perfformiad ar draws y sefydliadau.
- Cyfrifoldeb am ymgorffori gwerthoedd ac ymddygiadau Uchelgais Gogledd Cymru fel unigolyn ac ymysg y staff mewn timau.
- Cyfrifoldeb am gefnogi cydweithwyr ac aelodau'r tîm i gyflawni blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru a chefnogi eu datblygiad.
- Rheolaeth matrics o staff ac adnoddau ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ôl yr angen i gyflawni blaenoriaethau.
- Gweithredu fel llysgennad i Uchelgais Gogledd Cymru a'r rhanbarth.

# Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol

Bydd y penodiad yn cael ei wneud yn unol ag amodau a thelerau Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol (gan gynnwys unrhyw addasiadau lleol i'r telerau hynny) neu delerau lleol ehangach eraill sydd yn rhan o gytundeb torfol rhwng y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r undebau llafur.

## Oriau Gwaith

- Yr oriau gwaith wythnosol safonol ydi 37 awr, ond mae natur y swydd yn golygu y bydd angen i'r sawl a benodi weithio oriau anghymdeithasol y tu hwnt i hynny hefyd.

## Amser Gwasanaeth

- Bydd holl amser gwasanaeth deilydd y swydd yn cael ei dreulio ar waith y Cyd-bwyllgor. Ni chaniateir iddo / iddi ymgymryd ag unrhyw waith na chyflogaeth arall heb ganiatâd penodol y Cyd-bwyllgor.

## Cyflog

- Graddfa cyflog y swydd yw £84,480 - £93,163
- Bydd cynnydd trwy hicynnau o fewn y raddfa cyflog ar sail blynyddol a hynny ar y 1af o Ebrill o bob blwyddyn, yn ddibynnol ar ddatblygiad boddhaol o fewn y swydd.
- Telir y cyflog yn fisol trwy drosglwyddiad credyd banc ar yr 19eg o bob mis (neu'r dyddiad gwaith agosaf os yw'r dyddiad yn disgyn ar benwythnos neu ŵyl y banc).

## Treuliau

- Caniateir treuliau teithio a chynhaliaeth ynghyd ag unrhyw dreuliau eraill priodol ar sail yr hyn a benderfynwyd gan y Cyd-bwyllgor ac unrhyw gytundeb cenedlaethol fel y mabwysiadwyd neu ddiwygiwyd gan y Cyd-bwyllgor.
- Dynodir y swydd yn un defnyddiwr car at ddefnydd y swydd yn ôl y galw. Pan fyddwch yn defnyddio'r car ar fusnes y Cyd-bwyllgor telir treuliau i chi yn unol a'r raddfa achlysurol.

# Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol

### Gwyliau

- Caniateir 28 diwrnod o wyliau gyda 5 diwrnod ychwanegol ar ôl cwblhau 5 mlynedd o wasanaeth di-dor.
- Yn ogystal caniateir 8  diwrnod o wyliau banc/gwyliau cyhoeddus ac 3.5 o ddyddiau o wyliau statudol ychwanegol.

### Rhybudd

- Isafswm y cyfnod rhybudd gan y ddwy ochr fydd 3 mis.

### Buddiannau

Mae pecyn buddiannau ar gael tra'n gweithio i'r Cyd-bwyllgor, gan gynnwys:

- Mynediad i gynllun pensiwn llywodraeth leol.
- Gweithio'n hyblyg - cyflogwr sydd yn fodlon ystyried, ac wedi arddangos, ei barodrwydd i gefnogi staff i weithio ar sail hyblyg, fel sail i ganfod balans gwaith a bywyd llesol.
- Cyfraniad ariannol tuag at aelodaeth o un corff proffesiynol.

### Cyfyngiadau gwleidyddol

- Mae'r swydd hon yn un sydd wedi ei chyfyngu yn wleidyddol o dan ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae hynny'n golygu na ddylai'r deilydd ddangos tuedd wleidyddol.



# Y Cyflogwr

Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ydi'r awdurdod cyflogi.

Mae Cyd-Bwyllgorau Corfforedig yn endidau corfforaethol rhanbarthol awdurdodau lleol sydd a phwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Sefydlwyd pedwar CBC yng Nghymru ar 1 af o Ebrill 2021, yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol y gofynnwyd amdanynt gan lywodraeth leol, ac yn adlewyrchu trefniadau cydweithio Rhanbarthol oedd yn bodoli eisoes. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig dri maes mae'n canolbwyntio arnynt - cynllunio strategol, trafnidiaeth strategol a llesiant economaidd.

# Gwerthoedd tîm Uchelgais Gogledd Cymru

**Rydym yn Uchelgeisiol**

Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.

**Rydym yn gweithio ar y cyd**

Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.

**Rydym yn gwneud y peth iawn**

Rydyn ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd.  Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymiadau y cytunwyd arnynt ar amser.

**Rydym yn gwneud gwahaniaeth**

Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol.  Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hôl troed.



# Amserlen Recriwtio

### Dyddiad cau

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 10:00 y bore, dydd Mercher, 4ydd o Chwefror 2026

### Rhestr Fer

Byddwn yn anelu i gysylltu gyda'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad canlynol, gyda manylion dyddiadau asesiadau ar lein a chyfweliad dilynol - diwedd dydd Mercher, 18 Chwefror 2026.

### Canolfan Asesu

Bydd Canolfan Asesu yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos yn cychwyn yr 9fed Mawrth 2026. Union ddyddiad i'w gadarnhau wedi'r broses tynnu rhestr fer

### Cyfweliad Terfynol

Anelir i gynnal y cyfweliad terfynol gyda aelodau'r CBC ar ddydd Gwener, 20fed Mawrth 2026. Gofynnir i bob ymgeisydd gadw'r dyddiad yn rhydd am y tro.

# Y Broses Ymgeisio

Dilynwch y linc yma i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.

Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.

Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb bersonol. Cofiwch sicrhau fod eich datganiad personol yn cyfarch yr holl ofynion hanfodol sydd wedi ei gosod allan yn y manylion person.

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i Ganolfan Asesu a Chyfweliad, bydd manylion y cyfweliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.

Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried

# Buddion

**Mae nifer o fuddion o weithio i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd , mae manylion llawn ar gael yma. Dyma grynodeb o'r prif fuddion:**

### Cynllun Pensiwn

Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd

### Gwyliau Blynyddol

Mae gan weithwyr Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd hawl i 28 diwrnod o wyliau'r flwyddyn (neu 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth). Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 ½ diwrnod arall

### Absenoldebau Arbennig

Yn ogystal â'r gwyliau uchod, gellir caniatáu absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig megis symud tŷ, profedigaeth, mynychu apwyntiadau meddygol, ymgymryd a dyletswyddau cyhoeddus

### Cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu gweithwyr i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gall gweithiwr fanteisio o'r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau ystwyth
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr
- Gweithio'n hyblyg

### Hyfforddiant a datblygiad

Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol ·
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

uchelgaisgogledd.cymru